# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(96)v4

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**
**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Yn dilyn Datganiad Ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog, pa gefnogaeth bydd y Gweinidog yn ei rhoi i Gyngor Castell-nedd Port Talbot i sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol i blant yn yr awdurdod hwnnw yn gwella.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol (45 munud)

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y Paratoadau ar gyfer y Gaeaf (30 munud)

### 5. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio – pwerau i gynnwys darpariaethau machlud ac adolygu mewn is-ddeddfwriaeth (15 munud)

**NNDM5061 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio sy'n ymwneud â phŵer i Weinidogion Cymru gynnwys cymalau machlud ac adolygu mewn is-ddeddfwriaeth, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Hydref 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

**Dogfennau Ategol**
I weld copi o'r Bil ewch i:
http://services.parliament.uk/bills/2012-13/enterpriseandregulatoryreform/documents.html
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**6. Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2011-12 (60 munud)**

**NDM5095 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2011-12.

Gellir gweld Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2011-12 drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.childcomwales.org.uk/uploads/publications/299.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gan Gomisiynydd Plant Cymru gyfrifoldeb dros faterion wedi eu datganoli a materion heb eu datganoli sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu trefniadau llywodraethu Comisiynydd Plant Cymru, ac i ystyried gwneud y Comisiynydd yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

yn hytrach nag i'r Prif Weinidog yn unig.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod datganiad i'r wasg Comisiynydd Plant Cymru sy'n gysylltiedig ag Adroddiad Blynyddol 2011-12:

a) yn cydnabod y pryderon a fynegwyd wrth Gomisiynydd Plant Cymru nad yw rhai pobl ifanc yng Nghymru yn gallu cael gafael ar wasanaethau ieuenctid o ansawdd da, ac nad yw gwasanaethau ieuenctid yn cael eu gwerthfawrogi ddigon; a

b) yn galw am ymrwymiad cenedlaethol i gydnabod gwerth gwaith ieuenctid.

Mae'r datganiad i'r wasg ar gael drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.complantcymru.org.uk/uploads/publications/302.pdf

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd yr eitem am

**7. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5075 Lynne Neagle (Tor-faen):** Y Storm Berffaith

Asesu effaith gronnol diwygio lles mewn cysylltiad â thai yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 21 Tachwedd 2012